Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Ysgol Steiner Nant-y-Cwm
## Llanycefn
## Ger Clunderwen
## Sir Benfro
## SA66 7QJ

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Steiner Nant-y-Cwm

Mae Ysgol Steiner Nant-y-Cwm wedi'i lleoli ym mhentref Llanycefn yn Sir Benfro. Mae'n ysgol ddydd annibynnol gydaddysgol i fechgyn a merched 3 i 14 oed. Fe'i sefydlwyd ym 1979 ac mae'n ymddiriedolaeth elusennol, a reolir gan fwrdd ymddiriedolwyr. Mae'r ysgol yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn elusen gofrestredig. Mae'n aelod o Gymdeithas Ysgolion Steiner Waldorf ac mae'n darparu addysg Steiner Waldorf, gan ystyried datblygiad y plentyn yn gyfannol.

Mae'r ysgol wedi'i threfnu'n ddwy adran. Mae'r ysgol feithrin yn darparu ar gyfer disgyblion 3 i 6 oed ac mae'r brif ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion 6 i 14 oed. Ar hyn o bryd, mae 63 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae'r rhain yn cynnwys 17 o ddisgyblion yn yr ysgol feithrin a 46 o ddisgyblion yn y brif ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn teithio o ardal eang sy'n cynnwys Sir Benfro a Cheredigion. Daw ychydig ddisgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Nid oes unrhyw ddisgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol na Chymraeg mamiaith gartref. Mae'r ysgol yn nodi bod gan oddeutu 8% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig. Fodd bynnag, nid oes gan yr un plentyn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion gydag amrywiaeth eang o alluoedd. Cyn dechrau, mae darpar ddisgyblion yn ymuno â'r ysgol am gyfnod prawf ac maent yn dod i gyfweliad gyda'u rhieni i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â nod ac ethos yr ysgol. Mae'r ysgol yn cynnig derbyn disgyblion ar sail ei gallu i fodloni anghenion y plentyn. Mae'r ysgol yn disgrifio'i hethos a'i phwrpas fel a ganlyn: 'addysgu'r plentyn cyfan, pen, calon a llaw, trwy gwricwlwm Steiner sy'n symbylu ac yn ysbrydoli, sy'n bodloni anghenion pob plentyn fel unigolyn unigryw.'

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mai 2013. Ymagwedd golegol sydd gan yr ysgol at arweinyddiaeth ac, felly, nid oes ganddi bennaeth.

## Crynodeb

Mae Ysgol Steiner Nant-y-Cwm yn darparu amgylchedd teuluol diogel a gofalgar i ddisgyblion. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion lefelau uchel o les ac maent yn mwynhau dod i'r ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, yn gwrando'n ofalus ac yn canolbwyntio'n llwyddiannus am gyfnodau estynedig. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu dysgu, yn enwedig wrth wella'u medrau corfforol a chreadigol. Fodd bynnag, mae eu cynnydd wrth ddatblygu'u medrau llythrennedd a'r amrediad llawn o fedrau mathemategol yn llai cyson.

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon a disgyblion berthynas waith gref a chefnogol. Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu buddiol a diddorol, ar y cyfan, i ddisgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt yn darparu digon o gyfleoedd addas i ddisgyblion feddwl yn ofalus i ddatrys problemau neu i weithio'n annibynnol. Yn rhy aml, nid yw tasgau'r athrawon yn herio disgyblion o alluoedd amrywiol yn briodol.

Mae diffyg trylwyredd yn nhrefniadau arweinyddiaeth golegol a chymuned ddysgu hunanlywodraethol yr ysgol. Nid yw'r arweinyddiaeth a rennir wedi cael digon o effaith ar wella ansawdd dysgu ac addysgu, ac ar godi safonau. Mae diffyg trylwyredd mewn trefniadau sicrhau ansawdd ac, o ganlyniad, nid oes dealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** |

## Cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu rheoli gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau perthynol: Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003. Mae'r rheoliadau hyn yn gofyn bod ysgol arbennig yn bodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

### Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Addasrwydd perchnogion a staff

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Darparu gwybodaeth

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhellion

A1 Cryfhau effeithiolrwydd arweinyddiaeth

A2 Gwella ansawdd a chywirdeb gweithgareddau sicrhau ansawdd a chryfhau prosesau cynllunio gwelliant

A3 Gwella addysgu fel bod athrawon yn herio pob grŵp o ddisgyblion i gyflawni cystal ag y gallant ac fel bod adborth i ddisgyblion yn eu helpu i wella'u gwaith

A4 Gwella safonau llythrennedd a'r amrediad llawn o fedrau mathemateg

A5 Gwella sut mae'r ysgol yn olrhain datblygiad medrau disgyblion

A6 Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Mae Estyn yn cynghori'r perchennog i ddiwygio'i gynllun datblygu presennol i ddangos pa gamau gweithredu mae'r ysgol yn bwriadu'u cymryd i ymateb i'r argymhellion. Hefyd, cynghorir dosbarthu'r cynllun hwn, neu grynodeb ohono, i'r holl rieni/gofalwyr yn yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwelliant**

Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu dysgu, yn enwedig wrth wella'u medrau corfforol a chreadigol. Fodd bynnag, mae eu cynnydd wrth ddatblygu'u medrau llythrennedd a'r amrediad llawn o fedrau mathemategol yn llai cyson. Ar y cyfan, nid yw llawer o ddisgyblion, yn enwedig y rhai sy'n fwy abl, yn gwella'u medrau llythrennedd a mathemategol yn ddigon da. Mae hyn oherwydd nid yw gweithgareddau bod amser yn eu herio nhw'n effeithiol ac, yn aml, mae rhediad y dysgu'n rhy araf. Mae llawer o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd cadarn yn gysylltiedig â'u mannau cychwyn.

Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion fedrau llefaredd da. Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n dda pan fydd eraill yn siarad ac maent yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau, er enghraifft mewn gwersi symud. Mae disgyblion yn yr ysgol feithrin yn awyddus i siarad am eu gweithgareddau, gyda llawer ohonynt yn defnyddio ystod eang o eirfa aeddfed. Mae gan lawer o ddisgyblion hŷn yn y brif ysgol fedrau siarad datblygedig; er enghraifft, maent yn adrodd penillion pen-blwydd hir gan daflu'u llais yn effeithiol a defnyddio ynganiad clir. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn esbonio'u gwaith gyda hyder ac eglurder.

Pan fydd disgyblion yn dechrau yn y brif ysgol, maent yn datblygu'u medrau darllen cynnar yn araf. Mae mwyafrif y disgyblion yn cael trafferth darllen geiriau syml ac mae ganddynt wybodaeth ansicr am ffoneg. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn gwella'u medrau darllen yn briodol. Mae mwyafrif y disgyblion hyn yn darllen gyda rhuglder a mynegiant, ond mae gan leiafrif ohonynt ddealltwriaeth gyfyngedig o'r hyn maent wedi'i ddarllen. Nid oes gan ddisgyblion hŷn fedrau lefel uwch datblygedig, fel dod i gasgliad, na gwerthfawrogiad o'r ffordd y mae awduron yn defnyddio iaith i greu effaith.

Yn y brif ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r gwaith ysgrifennu sy'n cael ei gwblhau gan ddisgyblion iau'n cael ei gopïo o destunau neu ei arddweud gan athrawon. O ganlyniad, nid yw llawer o ddisgyblion yn datblygu'r gallu i ysgrifennu'n dda yn annibynnol, dysgu sut i ddefnyddio atalnodi'n gywir na gwella'u medrau sillafu. Mae disgyblion hŷn yn dechrau cynhyrchu darnau o waith mwy annibynnol. Er enghraifft, mae disgyblion yn Nosbarth 5 a 6 yn ysgrifennu adroddiadau cywir o arbrawf ffiseg ar briodweddau deunyddiau. Yn Nosbarth 8, mae disgyblion yn ysgrifennu penillion diddorol am lan y môr a bywgraffiadau manwl. Mae'r disgyblion hyn yn defnyddio ystod briodol o atalnodi ac yn sillafu'n gywir. Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu gan ddefnyddio llawysgrifen redeg, daclus, ac mae mwyafrif y disgyblion hŷn yn cyflwyno'u gwaith gyda gofal. Fodd bynnag, nid yw disgyblion hŷn yn ysgrifennu'n greadigol neu'n estynedig yn ddigon aml a, heblaw am ychydig ddisgyblion mwy abl, nid ydynt yn defnyddio amrywiaeth gyfoethog o eirfa i ennyn diddordeb y darllenydd.

Yn yr ysgol feithrin, mae disgyblion yn dechrau dysgu a defnyddio iaith fathemategol yn briodol. Er enghraifft, defnyddiant eiriau Saesneg fel 'less' a 'more' wrth lenwi jwg â dŵr a defnyddiant y gair 'half' yn gywir wrth dorri ffrwythau. Mae disgyblion iau yn y brif ysgol yn dysgu sut i ddefnyddio'r pedair rheol rhif yn briodol. Mae mwyafrif y disgyblion hŷn yn cyflawni gweithrediadau mathemategol sylfaenol yn gywir. Er

enghraifft, maent yn trosi canrannau yn ddegolion yn gywir. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau mathemategol yn dda mewn sefyllfaoedd go iawn, er enghraifft i gyfrifo elw a cholled wrth brynu a gwerthu nifer o gyfrannau mewn gwahanol gwmnïau. Fodd bynnag, ar draws y brif ysgol, nid yw disgyblion mwy abl yn benodol yn gwella'r medrau hyn yn ddigon cyflym gan nad yw'r gwaith bob amser yn eu herio'n effeithiol. Yn ogystal, nid ydynt yn datblygu'r amrediad llawn o fedrau mathemategol gan fod ffocws ar rif yn y rhan fwyaf o waith. Ar draws y brif ysgol, nid yw disgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd mewn pynciau ar draws y cwricwlwm yn ddigon da.

Trwy'r cyfleoedd rheolaidd a ddarperir gan yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn mireinio'u medrau corfforol yn dda. Mae disgyblion iau yn taflu ac yn dal bagiau ffa yn gywir, ac mae llawer o ddisgyblion hŷn yn defnyddio ffon hoci yn dda. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwella'u medrau creadigol yn llwyddiannus. Yn yr ysgol feithrin, maent yn defnyddio medrau gwnïo syml i addurno teganau meddal ac mae disgyblion iau yn y brif ysgol yn defnyddio dyfrlliwiau i greu darluniau o flodau yn llawn dychymyg. Mae'r disgyblion hŷn yn y brif ysgol yn defnyddio'u gwybodaeth am olau a thywyllwch i greu lluniau aeddfed mewn siarcol i ddangos persbectif.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Ar draws yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion lefelau uchel o les ac maent yn mwynhau dod i'r ysgol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel, gan gynnwys wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd. Mae bron bob un o'r disgyblion yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt wedi cynhyrfu neu os oes ganddynt broblem. Maent yn hyderus y bydd staff yn delio ag unrhyw broblemau posibl sydd ganddynt. Yn y brif ysgol, caiff disgyblion gyfarfodydd rheolaidd â'u hathro dosbarth i drafod eu gwaith ac i gael cymorth bugeiliol.

Mae bron bob un o'r disgyblion yn dangos lefelau aeddfed o hyder wrth ymwneud ag oedolion a'u cymheiriaid. Mae llawer ohonynt yn foesgar a chwrtais, ac yn groesawgar tuag at ymwelwyr. Mae llawer o ddisgyblion yn trin eu hathrawon a'u cymheiriaid gyda pharch. Maent yn rhyngweithio'n dda gyda disgyblion o oedran gwahanol ac mae hyn yn meithrin eu hymdeimlad cryf o berthyn i un teulu.

Yn ystod gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda. Maent yn gwrando'n astud ar esboniadau athrawon ac yn canolbwyntio'n llwyddiannus am gyfnodau estynedig. Mae bron bob un o'r disgyblion yn symud rhwng gwersi yn ddigynnwrf ac maent yn ymwybodol o reolau'r ysgol. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion iau yn y brif ysgol yn araf ambell waith i ymroi i'w dysgu ac mae angen eu hatgoffa'n fynych i ganolbwyntio ar y dasg.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos cryn falchder yn eu gwaith. Er enghraifft, maent yn awyddus i rannu'u llyfrau testun, y maent wedi'u cyflwyno'n gelfydd. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gweithio ar y cyd mewn parau a grwpiau. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn y brif ysgol yn datblygu'r medrau i'w galluogi i weithio'n annibynnol yn ddigon da. Maent yn dibynnu'n drwm ar weithgareddau dan arweiniad yr athro ac yn rhy barod i ofyn am gymorth pan fydd y gweithgareddau'n heriol iddynt.

Mae bron bob un o'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o sut i gadw'n iach a'r angen i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Er enghraifft, yn y brif ysgol, caiff disgyblion fyrbrydau a bocsys cinio iach yn unig ac mae disgyblion yn yr ysgol feithrin yn helpu i baratoi bwyd ar gyfer eu byrbryd iach ganol bore. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn cymryd rhan yn y 'Gemau Olympaidd Steiner' yn flynyddol, lle byddant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol gyda disgyblion o ysgolion Steiner eraill o bob cwr o'r byd. Mae bron bob un o ddisgyblion yr ysgol feithrin yn cymryd rhan yn frwd mewn dysgu gweithgar yn yr awyr agored.

Ar draws yr ysgol, mae gan yr holl ddisgyblion gyfrifoldebau dosbarth, y maent yn eu cyflawni gyda brwdfrydedd a diwydrwydd. Mae aelodau o dîm cymorth disgyblion yr ysgol yn ymgymryd â'u rolau'n ddifrifiol iawn. Maent yn dechrau gwneud cyfraniadau gwerthfawr at wella bywyd beunyddiol yr ysgol. Er enghraifft, maent wedi dechrau cyfnewidfeydd llyfrau a siop i ddisgyblion brynu defnyddiau ysgrifennu. Mae disgyblion hŷn yn dangos agwedd gyfrifol tuag at eu rôl fel 'bydis' i ddisgyblion iau yn y brif ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwybod sut i fod yn ddinesydd cyfrifol ac maent yn cyfrannu'n frwdfrydig at ddigwyddiadau elusennol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Er enghraifft, maent yn cynnal digwyddiadau casglu sbwriel i wella'r amgylchedd lleol ac yn cymryd rhan yn Niwrnod Llyfr y Byd. Yn yr ysgol feithrin, mae disgyblion yn helpu staff i drwsio teganau yn rheolaidd. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu disgyblion i ddeall pwysigrwydd cynaliadwyedd ac i werthfawrogi adnoddau.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwelliant**

Mae cwricwlwm yr ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Mae cwricwlwm yr ysgol wedi'i seilio ar athroniaeth addysgol Steiner Waldorf, sydd wedi'i llunio i fodloni anghenion disgyblion ar adegau amrywiol yn eu datblygiad emosiynol, deallusol a chorfforol. Yn yr ysgol feithrin, mae'r pwyslais ar chwarae, caneuon a gemau cyfrif creadigol ac yn yr awyr agored, yn ogystal â gweithgareddau fel paratoi bwyd, paentio a modelu.

Yn y brif ysgol, mae pwyslais cryf ar ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o rif a darparu profiadau ieithyddol addas. Hefyd, caiff disgyblion gyfleoedd buddiol i astudio gwyddoniaeth, y dyniaethau, Ffrangeg, cerddoriaeth a'r celfyddydau, yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithgareddau fel gwaith llaw, crefftau, garddio a gemau. Mae'r ysgol yn trefnu amrywiaeth o deithiau ac ymweliadau buddiol i ategu'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn ymweld â Gwlad yr Iâ i astudio daeareg ac mae'r disgyblion iau yn ymweld â'r arddangosiadau Rhufeinig yng Nghaerfaddon a'r Ganolfan Eifftaidd fel rhan o'u pynciau hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn helpu i ehangu profiadau addysgol disgyblion ac yn cefnogi'u datblygiad personol a chymdeithasol yn dda. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliant Cymru. Er enghraifft, mae disgyblion yn yr ysgol feithrin yn cynnal Eisteddfod flynyddol ac mae disgyblion yn y brif ysgol yn ymweld â mannau lleol o ddiddordeb, fel Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu buddiol a diddorol, ar y cyfan, i ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw cynllunio hirdymor yr ysgol yn nodi sut bydd athrawon yn addasu gweithgareddau i fodloni anghenion disgyblion o alluoedd amrywiol yn ddigon da. Yn ogystal, yn y cynllunio hwn, nid oes digon o ffocws ar sut bydd tasgau'n datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, meddwl a datrys problemau'r disgyblion. Mae cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth o glybiau allgyrsiol.

Ar draws yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o athrawon berthynas waith gref a chefnogol gyda disgyblion. Mae gan lawer o staff wybodaeth bynciol gadarn. Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn cyflwyno ystod ddiddorol o destunau pwnc sy'n hoelio sylw disgyblion yn llwyddiannus. Darparant esboniadau clir i helpu disgyblion i ennill dealltwriaeth sicr o gysyniadau a themâu newydd. Mewn lleiafrif o achosion, mae athrawon yn defnyddio holi'n dda i atgyfnerthu dysgu cynt ac annog disgyblion i feddwl yn ofalus. Mewn ychydig ddosbarthiadau, mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion weithio'n annibynnol neu mewn grwpiau bach, er enghraifft i greu gêm fwrdd yn seiliedig ar weithrediadau rhif. Mewn ychydig bach iawn o achosion, mae athrawon yn dyfeisio prosiectau heriol, er enghraifft pan gaiff disgyblion gyfle i gydbwyso cyllideb deuluol, gan nodi incwm a gwariant misol.

Nid yw athrawon yn rhoi digon o gyfleoedd addas i ddisgyblion feddwl yn ofalus i ddatrys problemau neu i weithio'n annibynnol. Mewn llawer o achosion, mae disgyblion yn treulio gormod o amser yn gwrando ar adroddiadau athrawon a chofnodi a threfnu'r wybodaeth hon yn unig. Nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'u medrau darllen lefel uwch na chynhyrchu gwaith ysgrifennu creadigol estynedig at amrywiaeth o ddibenion. Yn rhy aml, nid yw tasgau'n herio disgyblion o alluoedd gwahanol yn briodol. Mewn ychydig bach iawn o achosion, nid yw'r ysgol yn dosbarthu staff yn effeithiol i gefnogi dysgu'r disgyblion.

Mae mwyafrif yr athrawon yn rhoi adborth mynych a defnyddiol ar lafar, sy'n helpu disgyblion i ddeall cysyniadau newydd yn gliriach ac i wella agweddau ar eu gwaith. Fodd bynnag, mae ansawdd adborth ysgrifenedig yn amrywio'n ormodol. Mewn gormod o achosion, nid yw athrawon yn marcio gwaith disgyblion nac yn amlygu gwallau yn ddigon aml. Nid oes ffordd gyson ar draws yr ysgol o sicrhau bod adborth ysgrifenedig yn rhoi cyngor clir i gefnogi gwelliant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd teuluol diogel a gofalgar, lle y mae lles disgyblion yn ganolog i'w holl waith. Mae staff yn adnabod disgyblion a'u teuluoedd yn dda ac mae ganddynt gwlwm adnabod cefnogol ac agos gyda rhieni a'u plant fel ei gilydd.

Yn yr ysgol feithrin, mae staff yn olrhain datblygiad medrau disgyblion yn rheolaidd. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion. Fodd bynnag, yn y brif ysgol, er bod athrawon unigol yn rhoi profion defnyddiol i ddisgyblion ac yn llunio barnau am eu cynnydd, nid ydynt yn olrhain datblygiad medrau'r disgyblion yn ddigon da. O ganlyniad, nid oes gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o gynnydd a chyflawniad disgyblion ym meysydd allweddol darllen, ysgrifennu a rhifedd.

Mae'r ysgol yn nodi disgyblion ag anghenion addysgol arbennig trwy asesiadau unigol. Mae gan ddisgyblion targedig gynlluniau cymorth unigol sy'n cynnwys targedau addas ar gyfer gwella. Mae'r ysgol yn rhannu'r cynlluniau hyn gyda rhieni a disgyblion yn effeithiol. Mae cydlynydd anghenion ychwanegol yr ysgol yn gweithio'n agos gydag athrawon dosbarth i fonitro'r cynnydd a wna disgyblion tuag at gyrraedd eu targedau. Yn ogystal, mae'n cydweithio'n briodol gydag asiantaethau allanol i roi cymorth a chyngor i ddisgyblion, pan fo'r angen. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu.

Mae staff yn sicrhau bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth glir o sut i fyw'n iach. Rhoddant arweiniad defnyddiol i rieni i annog disgyblion i fwyta bwyd iach amser cinio ac maent yn hyrwyddo ffyrdd egnïol o fyw yn ystod gwersi symud a gemau ac amser egwyl. Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu sut i gadw'n ddiogel, gan gynnwys wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd.

Mae rhieni'n cael gwybodaeth fuddiol am sut y gallant gefnogi dysgu'u plant gartref. Mae hyn yn cynnwys prynhawniau addysgol rheolaidd i rieni a chyfarfodydd dosbarth bob tymor lle y mae athrawon yn adrodd ar gynnydd eu dosbarth. Mae staff yn ysgrifennu adroddiadau manwl blynyddol ar ddisgyblion, sy'n rhoi gwybodaeth werthfawr i rieni am gyflawniadau'u plentyn. Fodd bynnag, nid yw adroddiadau bob amser yn cynnwys targedau addas ar gyfer gwella.

Mae staff yn rhoi cyfle i ddisgyblion hŷn ddatblygu medrau arwain, er enghraifft trwy eu grŵp cymorth disgyblion. Caiff y disgyblion hyn gyfle i helpu trefnu digwyddiadau'r ysgol a helpu i oruchwylio siop yr ysgol. Trwy sioeau dosbarth rheolaidd, caiff disgyblion yn y brif ysgol gyfleoedd i berfformio gerbron cynulleidfaoedd gwahanol.

Mae staff yn sicrhau bod gan ddisgyblion gyfleoedd mynych i godi arian at achos da. Er enghraifft, maent yn annog disgyblion a'u teuluoedd i roi eitemau i fanc bwyd lleol a chodi arian i ysgol yn Rwanda. Mae'r gweithgareddau hyn yn rhoi dealltwriaeth bendant i ddisgyblion fod yna bobl sy'n llai ffodus na nhw. Mae cwricwlwm Steiner yn cynnwys cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliannau a chrefyddau gwahanol. Hefyd, mae'r ysgol yn annog disgyblion i ymddwyn mewn ffordd gynaliadwy, er enghraifft trwy ddefnyddio pecynnu ailddefnyddiadwy a helpu i drwsio adnoddau'r ysgol. Mae'r gwaith hwn yn helpu disgyblion i ddatblygu'n ddinasyddion byd-eang cyfrifol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys**

Mae diffyg trylwyredd yn nhrefniadau arweinyddiaeth golegol a chymuned ddysgu hunanlywodraethol yr ysgol. Nid yw'r arweinyddiaeth hon a rennir wedi cael digon o effaith ar wella ansawdd dysgu ac addysgu, ac ar godi safonau.

Mae Ysgol Steiner Nant-y-Cwm yn hyrwyddo gweledigaeth, gwerthoedd ac ethos Steiner yn llwyddiannus. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at y berthynas gadarn â rhieni, yr amgylchedd teuluol anogol, agos, a lefelau uchel o les disgyblion. Mae natur

strwythur trefniadaethol yr ysgol a'r arweinyddiaeth golegol drwy waith timau cymorth penodol yn galluogi'r holl staff a rhieni i gyfrannu at flaenoriaethau datblygu strategol yr ysgol a'u perchnogi.

Mae amrywiaeth eang o bolisïau a gweithdrefnau addas sy'n llywio sawl agwedd ar waith yr ysgol. Mae'r swyddog gweinyddol yn sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu'n effeithlon o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, yn sgil y strwythur colegol a gwneud penderfyniadau ar sail consensws, mae'n aml yn anodd i'r ysgol wneud penderfyniadau di-oed am faterion penodol neu agweddau penodol ar waith yr ysgol.

Nid oes gan yr ysgol ddulliau effeithiol o ddwyn staff i gyfrif yn drwyadl am ansawdd eu gwaith. Nid oes gan staff swydd-ddisgrifiadau personol sy'n amlinellu'u hunion rolau a chyfrifoldebau yn glir. Nid oes strwythur clir o ran rheolaeth llinell. O ganlyniad, nid yw staff yn cael cyfeiriad ac arweiniad addas am ddisgwyliadau'r ysgol, er enghraifft i wella ansawdd addysgu a sicrhau trylwyredd mewn asesu, gosod targedau ac olrhain cynnydd. Mae cyfarfodydd y tîm arweinyddiaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar faterion gweithredol ac nid ydynt yn rhoi ystyriaeth addas i gynnydd disgyblion ac i ddysgu ac addysgu.

Mae diffyg trylwyredd yn nhrefniadau sicrhau ansawdd yr ysgol. Nid oes rhaglen systematig o arsylwi gwersi a chraffu ar waith a fyddai'n darparu tystiolaeth uniongyrchol o ansawdd dysgu ac addysgu. O ganlyniad, nid oes dealltwriaeth graff o gryfderau'r ysgol a'i meysydd perthnasol i'w gwella. Nid yw'r ysgol yn amlygu blaenoriaethau allweddol yn ddigon da nac yn cynllunio'n effeithiol i gryfhau'r ddarpariaeth a gwella deilliannau i ddisgyblion.

Mae tîm rheoli'r ysgol yn cynnig arweinyddiaeth ymroddedig a myfyriol. Mae'r tîm hwn yn cefnogi cydweithwyr yn dda, yn enwedig i gryfhau trefniadau cynllunio tîm. Mewn ychydig feysydd, mae'r drefn hon yn cyfrannu at wella arfer. Fodd bynnag, o'r braidd y mae'r gwaith hwn wedi dechrau a bach iawn o effaith y mae wedi'i chael ar wella ansawdd y ddarpariaeth a'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion.

Nid yw cyfleoedd dysgu proffesiynol wedi'u datblygu'n ddigonol. Mae'r ysgol yn annog staff i fyfyrio ar eu gwaith a chymryd rhan mewn gweithgareddau mentora gyda chydweithwyr eraill. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi ymgymryd â hyfforddiant perthnasol ar agweddau fel diogelu a darparu cymorth cyntaf. Fodd bynnag, nid oes gan yr ysgol drefniadau addas i reoli perfformiad sy'n helpu i bennu amcanion penodol ar gyfer yr holl aelodau staff a nodi hyfforddiant perthnasol i gefnogi'u dysgu proffesiynol.

Mae'r tîm llywodraethu'n dangos ymrwymiad cryf i wella pob agwedd ar waith yr ysgol. Mae aelodau'r tîm hwn yn dechrau cymryd camau priodol i gryfhau'r trefniadau arweinyddiaeth ar draws yr ysgol ac i wella gallu'r tîm i oruchwylio, cefnogi a herio'r ysgol yn effeithiol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'r tîm yn cael gwybodaeth ddigon manwl a chynhwysfawr am waith yr ysgol ac nid oes ganddo ddealltwriaeth glir o safonau a chynnydd y disgyblion.

Mae'r tîm llywodraethu'n monitro pob cyllideb yn drylwyr. Maent yn neilltuo arian yn uniongyrchol i ariannu blaenoriaethau cytunedig er mwyn cyflawni nodau sylfaenol yr ysgol. Mae yna ddigon o staff sydd wedi cymhwyso'n briodol i gyflwyno cwricwlwm Steiner. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'i hadnoddau i ddarparu

amgylchedd dysgu addas.  Fodd bynnag, mae'r safle a'r cyfleusterau cyfyngedig yn cyfyngu ar ddysgu mewn meysydd penodol, fel gweithgareddau gwyddoniaeth.

Mae'r ysgol yn bodloni holl Reoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

O dan Reoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Pan fydd disgybl yn cael ei leoli gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad i bob awdurdod perthnasol.

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwella** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwella ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 12/08/2019